

Eich cyf / Your
ref:

Gofynner am / Please ask for:

Fy nghyf / My ref:

Llinell Uniongyrchol / Direct Line:

Dyddiad / Date:

E-bost / E-mail:

gwasanaethauetholiadol@sirgar.gov.uk

**Etholiadau Llywodraeth Leol a Chynghorau Tref a Chymuned,
Dydd Iau, 5 Mai 2022**

I ddarpar Ymgeiswyr Etholiadol Cynghorau Tref/Cynghorau Cymuned

PWYSIG

**GWNEWCH YN SIŴR EICH BOD YN DARLLEN CYNNWYS Y
LLYTHYR HWN YN OFALUS IAWN CYN CWBLHAU'R GWAITH
PAPUR ENWEBU**

Gweler yn amgaaedig y ffurflenni angenrheidiol ar gyfer cyflwyno enwebiad.

Mae yna nifer o bwyntiau pwysig y mae angen eu gwneud ynglŷn â chyflwyno'r enwebiad, felly **darllenwch yr holl wybodaeth yn y llythyr hwn yn ofalus cyn cwblhau'r gwahanol ddogfennau.**

1. Dogfennau a amgaeir gyda'r pecyn hwn

Darparwyd rhestr gynnwys lawn, sy'n cynnwys y canlynol:

Rhestr wirio enwebu – i'w defnyddio gan ymgeiswyr/asiantau i sicrhau eu bod wedi cwblhau'r holl gamau angenrheidiol cyn cyflwyno'r enwebiad.

Papur enwebu –

Ffurflen Cyfeiriad Cartref

Penodi Asiant Etholiadol (Etholiadau'r Cyngor Sir yn unig)

Tystysgrif awdurdodi

Cais ymgeisydd i ddefnyddio arwyddlun

Ffurflen i ofyn am gopi o'r gofrestr etholwyr

Ffurflen i ofyn am gopi o'r rhestrau o bleidleiswyr absennol

Wendy Walters

Prif Weithredwr, Neuadd y Sir,

Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Chief Executive, County Hall,

Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

2. Canllawiau'r Comisiwn Etholiadol

Mae'r canllawiau cynhwysfawr a gynhrychir gan y Comisiwn Etholiadol ar gyfer ymgeiswyr/asiantau ar gael yn <https://www.electoralcommission.org.uk/i-am-a-candidate-or-agent/parish-and-community-council-elections-in-england-and-wales> (ar gyfer Ymgeiswyr i Gynghorau Tref/Cymuned) a <https://www.electoralcommission.org.uk/i-am-a-candidate-or-agent/local-elections-wales> (ar gyfer Ymgeiswyr i'r Cyngor Sir)

Argymhellir yn gryf bod ymgeiswyr ac asiantau yn cyfeirio at ganllawiau'r Comisiwn cyn cyflwyno enwebiad a thrwy gydol cyfnod yr etholiad yn ôl yr angen.

3. Cyflwyno Papurau Enwebu

Cyhoeddir yr Hysbysiad Etholiad ddydd Gwener 18 Mawrth 2022.

Gellir cyflwyno enwebiadau yn ystod y cyfnod enwebu, a fydd yn dechrau ddydd Llun 21 Mawrth ac yn cau am 4pm ddydd Mawrth 5 Ebrill 2022.

Byddwn yn cynnig archwiliad anffurfiol o bapurau cyn eu derbyn yn ffurfiol. Rydym yn eich cynghori i wneud apwyntiad i gyflwyno eich papurau anffurfiol (os ydych yn eu cyflwyno â llaw). Gellir gwneud hyn drwy ffonio 01267 228889 neu drwy anfon e-bost at GwasanaethauEtholiadol@sirgar.gov.uk.

Argymhellir yn gryf eich bod yn ceisio trefnu i gyflwyno'r enwebiad cyn y diwrnod olaf os yw hynny'n bosibl.

4. Archwiliadau anffurfiol a chyflwyno papurau enwebu yn derfynol:

Os hoffech gael archwiliad anffurfiol o'ch papurau naill ai cyn dechrau'r cyfnod enwebu neu yn ystod y cyfnod hwnnw, yna cysylltwch â'r: Swyddfa Etholiadau ar 01267 228889 neu GwasanaethauEtholiadol@sirgar.gov.uk.

I gyflwyno eich papur enwebu terfynol, gallwch naill ai ei gyflwyno â llaw i'r swyddfeydd ar y dyddiadau canlynol **NEU** ei gyflwyno'n electronig drwy anfon e-bost at: Enwebiadau22@sirgar.gov.uk. **Ni allwn dderbyn enwebiadau drwy'r post.**

Y Mannau a'r Amseroedd ar gyfer cyflwyno enwebiadau terfynol:

- > Neuadd y Sir-10am-4pm-Dydd Llun 21 Mawrth i ddydd Mawrth 5 Ebrill (yn ystod yr wythnos yn unig)
- > Neuadd y Dref Llanelli-10am-4pm-Dydd Mercher 23 Mawrth
- > Neuadd y Dref Rhydaman-10am-4pm-Dydd Mawrth 29 Mawrth

Sylwer, os caiff papurau eu gwirio cyn y cyfnod enwebu, bydd unrhyw ganllawiau neu sicrwydd a roddir yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael bryd hynny, ond gall hyn newid.

Wendy Walters

Prif Weithredwr, Neuadd y Sir,
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Chief Executive, County Hall,
Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

5. Dilysrwydd Enwebiad:

I fod yn ddilys, rhaid i bapur enwebu gael ei ategu gan (i) y ffurflen cyfeiriad cartref newydd, wedi'i chwblhau'n briodol, (ii) tystysgrif yn awdurdodi'r disgrifiad sydd i'w ddefnyddio gan yr ymgeisydd (dim ond yn berthnasol i ymgeisydd sy'n sefyll dros blaid). Cyfeirir at bob un o'r rhain yn y paragraffau canlynol ac ymdrinnir â hwy'n gynhwysfawr yng nghanllawiau'r Comisiwn Etholiadol y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.

6. Papur Enwebu:

Rhaid cwblhau'r papur enwebu gan nodi eich enw llawn, disgrifiad (Enw'r Blaid neu Annibynnol), Datganiad aelodaeth o'r blaid, statws cymhwyster a'ch llofnod a llofnod gan dyst.

7. Ffurflen Cyfeiriad Cartref:

Mae'r ffurflen cyfeiriad cartref yn ffurflen newydd ar gyfer yr etholiadau hyn, sy'n adlewyrchu newid mewn deddfwriaeth i ganiatáu i ymgeiswyr mewn etholiadau lleol ddewis a ydynt yn dymuno i'w cyfeiriad cartref gael ei gyhoeddi ai peidio. Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau Rhan 1 trwy roi ei gyfeiriad cartref llawn a'r cyfeiriad cymwys. Rhaid cwblhau Rhan 2 hefyd os nad yw'r ymgeisydd yn dymuno i'w gyfeiriad cartref gael ei gyhoeddi ar y Datganiad ynghylch y sawl a enwebwyd a'r papur pleidleisio.

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau Rhan 1 trwy roi ei gyfeiriad cartref llawn a'r cyfeiriad(au) cymwys ar gyfer pob un o'r cymwysterau a ddatganwyd ar y cydsyniad i enwebu. Rhaid cwblhau Rhan 2 hefyd os nad yw'r ymgeisydd yn dymuno i'w gyfeiriad cartref gael ei gyhoeddi.

8. Hysbysiad Asiant Etholiadol:

Efallai y bydd Ymgeiswyr i'r Cyngor Sir yn dymuno penodi Asiant Etholiadol NEU efallai mai nhw fydd eu hasiant eu hunain. Gweler canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar rôl Asiant Etholiadol.

9. Tystysgrif Awdurdodi a Defnyddio Arwyddlun y Blaid - mae hyn ond yn ofynnol ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad ar ran plaid wleidyddol

Os yw ymgeisydd yn dymuno defnyddio un o'r disgrifiadau awdurdodedig ar gyfer plaid wleidyddol, yna mae'n ofynnol cyflwyno'r dystysgrif awdurdodi yn ystod y cyfnod enwebu.

Wendy Walters

Prif Weithredwr, Neuadd y Sir,
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Chief Executive, County Hall,
Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

Mae'n hanfodol (i) bod gan y person sy'n llofnodi'r awdurdodiad y grym i wneud hynny gan swyddog enwebu cofrestredig y blaid wleidyddol dan sylw; (2) bod y disgrifiad **naill ai'n** un o'r disgrifiadau a gofrestrwyd gan y blaid dan sylw **neu** enw'r blaid fel y'i cofrestrwyd; a (iii) bod yr hyn a gofnodir ar y dystysgrif yn cyfateb yn union i'r enw neu'r disgrifiad cofrestredig **a'r** disgrifiad a gaiff ei gynnwys ar y papur enwebu.

Mae yna ffurflen hefyd y gall yr ymgeisydd ei defnyddio i ofyn am argraffu arwyddlun plaid ar y papur pleidleisio. Byddwch yn ymwybodol (i) bod yn rhaid i'r cais hwn gael ei wneud gan yr **ymgeisydd**; a (ii) os yw'r blaid dan sylw wedi cofrestru mwy nag un arwyddlun, rhaid i'r cais ei gwneud yn glir pa un sydd i gael ei ddefnyddio.

10. Ymgyrch Etholiadol a Threuliau Etholiad

Mae rhagor o wybodaeth am yr ymgyrch etholiadol, a'r cwestiwn o dreuliau etholiad wedi'i chynnwys yn rhan 3 o ganllawiau'r Comisiwn Etholiadol.

Mae'r ffurflenni angenrheidiol ar gyfer datgan a dychwelyd treuliau ar gael i'w lawrlwytho ar wefan y Comisiwn Etholiadol neu ar gael ar gais gan y Swyddfa Etholiadau.

Rhaid i bob ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys gyflwyno ffurflen treuliau i'r Swyddog Canlyniadau, Cyngor Sir Caerfyrddin, **hyd yn oed os nad aethpwyd i unrhyw dreuliau neu os nad oes ymgeisydd arall yn sefyll yn ei erbyn yn yr etholiad.** Y terfyn gwariant ar gyfer pob ymgeisydd yw £806.00 a 7c fesul etholwr llywodraeth leol yn yr adran etholiadol neu Ward Tref/Cymuned sydd wedi cofrestru i bleidleisio ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad, sef y gofrestr ar 1 Mawrth 2022.

11. Darparu'r Gofrestr Etholwyr a Rhestr o Bleidleiswyr Absennol

Mae gan ymgeisydd mewn etholiad hawl i gael copi o'r gofrestr etholwyr a'r rhestr o Bleidleiswyr Absennol. Caiff ffurflenni eu cynnwys at ddiben gwneud y cais ysgrifenedig angenrheidiol.

Wendy Walters

Prif Weithredwr, Neuadd y Sir,
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Chief Executive, County Hall,
Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English